[redacted]

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Glastir

## Glastir Uwch

## Llyfryn Rheolau 1

**Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020**



© Hawlfraint y Goron 2015 ISBN: 978-1-4734-2980-2 WG22839

# Cynnwys


| | Rhif y Dudalen |
|---|---|
| **Prif Bwyntiau** | 5 |
| **Adran A – Cyflwyniad** | 7 |
| **Adran B – Gofynion Rheoli Glastir Uwch** | 9 |
| Trawsgydymffurfio | 9 |
| Cod y Fferm Gyfan | 9 |
| Opsiynau Rheoli Glastir Uwch | 9 |
| Gwaith Cyfalaf Glastir Uwch | 11 |
| **Adran C – Pwy sy'n Gymwys** | 12 |
| Tir mewn cynlluniau eraill | 13 |
| Tir Dynodedig | 15 |
| Tir ar gyfer Chwaraeon | 16 |
| **Adran D – Ceisio am Glastir Uwch** | 17 |
| **Adran E – Taliadau** | 19 |
| **Adran F – Newid y Contract** | 21 |
| Trosglwyddo neu Werthu Tir o dan y Contract | 21 |
| Cael Rhagor o Dir yn ystod Cyfnod y Contract | 21 |
| Newid y Tir a'r Gofyn i'n Hysbysu am Newidiadau i'r Tir | 22 |
| Newid i'r Ddeddfwriaeth (gan gynnwys Dehongliadau Newydd) | 22 |
| Newid Rheolau'r cynllun | 22 |
| **Adran G – Archwiliadau a Chofnodion** | 23 |
| Archwiliadau Fferm | 23 |
| Cadw Cofnodion | 23 |
| **Adran H – Cosbau** | 25 |
| Tanddatgan | 25 |
| Gorddatgan | 25 |
| Torri'r Contract | 25 |

Torri'r safonau Trawsgydymffurfio.......... 25

**Adran I – Y Drefn Apelio.......... 27**

Y Drefn Gwyno.......... 27

**Adran J – Deddf Diogelu Data 1998: Hysbysiad Prosesu Teg.......... 28**

Rhesymau dros Rannu Data Personol.......... 28

Gofyn am fwy o Wybodaeth.......... 30

**Adran K – Manylion Cysylltu.......... 31**

**Atodiad 1 – Amcanion Glastir Uwch.......... 33**

**Atodiad 2 – Opsiynau Rheoli.......... 35**

**Atodiad 3 – Gwaith Cyfalaf.......... 40**

**Atodiad 4 – Rheolaeth Lwyr.......... 50**

Perchen-Ddeiliad.......... 51

Tenantiaeth o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 neu Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986.......... 51

Tenantiaethau â llai na 5 mlynedd ar ôl neu sydd â Chymal Terfynu.......... 51

Ystyriaethau i'r Landlord a'r Tenant.......... 53

'Hawliau' Eraill ar Dir.......... 53

Trwyddedau Pori.......... 53

Mwy o Wybodaeth.......... 54

**Atodiad 5 – Enghraifft o Indemniad (Gwarant Landlord).......... 55**

**Atodiad 6 – Templedi'r Dyddiadur Stocio a'r Dyddiadur Gwaith... 58**

Templed enghreifftiol ar gyfer Dyddiadur / Dalen Cofnodi Stoc.......... 62

Sut i Gadw Dyddiadur Gwaith â llaw.......... 63

Templed ar gyfer y Dyddiadur Gwaith – Fersiwn 1.......... 65

Templed ar gyfer y Dyddiadur Gwaith – Fersiwn 2.......... 66

## Prif bwyntiau

- Mae’r ffurflen mynegi diddordeb wedi’i datblygu’n ddigidol ac mae ar gael ichi ar ffurf electronig ar RPW Ar-lein. Os ydych eisoes wedi cofrestru gydag RPW Ar-lein, i weld ffurflen Mynegi Diddordeb Glastir Uwch, ewch i’r adran Ceisiadau a Hawliadau.

- Os nad ydych wedi cofrestru gydag RPW Ar-lein eto a heb gael cod defnyddio, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 **cyn gynted ag y medrwch.** Fe gewch chi wedyn y manylion sydd eu hangen arnoch trwy’r post.

- I gael help i lenwi’ch ffurflen Mynegi Diddordeb Glastir Uwch ar-lein, ewch i www.cymru.gov.uk/rpwarlein. Os oes angen rhagor o help arnoch i fynegi’ch diddordeb ar–lein neu os nad ydych yn gallu gwneud hynny ar-lein, cysylltwch â’r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid **cyn gynted ag y medrwch** i drafod yr help digidol sydd ar gael ichi.

- Darllenwch y Llyfryn Esboniadol hwn a’r Llyfryn Sut i Lenwi cyn mynegi’ch diddordeb ar-lein. Os cewch eich dewis ar gyfer Glastir Uwch a’ch bod wedyn yn newid eich meddwl ar ôl i Reolwr Contractau Glastir ymweld â chi, cewch eich gwahardd o’r cynllun am hyd at ddwy flynedd. Mae’n bwysig felly eich bod yn deall yr holl reolau cyn mynegi’ch diddordeb a chyn derbyn ymweliad gan Reolwr Contractau Glastir.

- Rhaid i’r ffurflen Mynegi Diddordeb ar gyfer contract Glastir Uwch 2016 ein cyrraedd erbyn canol nos 6 Mawrth 2015.

- Gofalwch eich bod yn bodloni holl amodau’r cynllun am bum mlynedd lawn y contract.

- Bydd gofyn ichi gyflwyno Ffurflen Cais Sengl (SAF) bob blwyddyn am oes y contract.

- Cofiwch ateb yn brydlon unrhyw gwestiynau y gallai Llywodraeth Cymru ofyn ichi am eich ffurflen Mynegi Diddordeb. Gallai peidio â gwneud hynny olygu peidio â rhoi contract Glastir Uwch 2016 ichi.



Nôl i'r cynnwys

- Nid yw’r cynllun Glastir wedi cael ei gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd eto. Gallai’r gymeradwyaeth pan ddaw, olygu newid y canllawiau hyn.  Cyhoeddir y newidiadau yn Gwlad (www.gwladarlein.org) a lle gwelwn fod angen, byddwn yn cysylltu â’r rheini yr effeithir arnynt.



Nôl i'r cynnwys

## Adran A – Cyflwyniad

Cynllun sy'n ymrwymo ffermwr i reoli tir mewn ffordd gynaliadwy ar ei fferm gyfan am bum mlynedd yw Glastir Uwch. Ei nod yw gwireddu'r amcanion amgylcheddol canlynol:

- Lleihau allyriadau Carbon a Nwyon Tŷ Gwydr.
- Addasu i hinsawdd sy'n newid a chryfhau gallu busnesau fferm a choedwigaeth i wrthsefyll ei effeithiau.
- Rheoli ein hadnoddau dŵr i wella ansawdd dŵr a lleihau'r perygl o lifogydd.
- Cyfrannu at wneud ffermydd, coedwigaeth a'r gymuned wledig ehangach yn fwy economaidd gynaliadwy.
- Diogelu'r dirwedd a'r amgylchedd hanesyddol tra'n gwella mynediad ato.
- Cyfrannu at wyrdroi'r dirywiad ym mioamrywiaeth cynhenid Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnig help ariannol trwy Glastir Uwch i dalu am waith amgylcheddol yn y mannau sy'n cynnig y cyfleoedd gorau i wireddu amcanion Glastir Uwch. Bydd ymgeiswyr ar gyfer Glastir Uwch yn cael eu dewis ar ôl mynegi diddordeb ynddo wrth Lywodraeth Cymru. Caiff ffurflenni Mynegi Diddordeb eu sgorio yn ôl eich gallu i gyfrannu at wireddu amcanion Glastir Uwch. Bydd y rheini fydd yn gallu cyfrannu fwyaf at wireddu'r amcanion amgylcheddol yn cael y sgoriau uchaf a'u dewis ar gyfer Glastir Uwch. Efallai y bydd gofyn i ffermwyr a rheolwyr tir sy'n cael eu dewis i gymryd rhan yn Glastir Uwch ystyried newid eu harferion ffermio er mwyn gallu gwireddu'r amcanion a chadw at amodau'r contract.

Nid oes gofyn bod gennych gontract Glastir Sylfaenol i allu cael contract Glastir Uwch. Fodd bynnag, bydd yn dal yn bosib ichi ymuno â Glastir Uwch os oes gennych Glastir Uwch cyn belled â'i fod wedi dechrau cyn dechrau contract Glastir Uwch.

Canllaw i ffermwyr a rheolwyr tir sydd am Fynegi Diddordeb yn Glastir Uwch yw hwn. Nid yw'n ymdrin â phob agwedd ar y pwnc a gallai newid. Nid yw'r cynllun wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd eto a gallai'r gymeradwyaeth pan ddaw olygu newid y canllawiau hyn. Cyhoeddir y newidiadau yn Gwlad (www.gwladarlein.org) a lle gwelwn fod angen, byddwn yn cysylltu â'r rheini yr effeithir arnynt.

Telir am Glastir Uwch ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd fel rhan o Raglen Datblygu Gwledig Cymru ar gyfer 2014-2020.

Rheolir y cynllun Glastir Uwch gan yr Offeryn Statudol Cymreig sy'n ymdrin â Rhaglenni Datblygu Gwledig, Rheoliadau (UE) y Cyngor rhif 1305/2013, 1303/2013 a 1306/2013, Rheoliadau (UE) y Comisiwn rhif 808/2014 ac 809/2014 a Rheoliadau Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 640/2014 ac 807/2014 (fel y gallent gael eu newid o dro i dro). Mae copïau o'r Rheoliadau hyn i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk neu gallwch ofyn i Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru am gopïau.

# Adran B – Gofynion Rheoli Glastir Uwch

Bydd gofynion rheoli Glastir Uwch yn cynnwys y canlynol:

- Trawsgydymffurfio
- Cod y Fferm Gyfan
- Opsiynau Rheoli Glastir
- Gwaith Cyfalaf Glastir Uwch.

## Trawsgydymffurfio

Set o ofynion gorfodol yw Trawsgydymffurfio y mae'n rhaid cadw atyn nhw ar yr holl dir rydych yn ei ffermio:

- cadw tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (CAAD/*GAEC)* trwy fodloni nifer o safonau sy'n ymwneud â diogelu pridd, cynefinoedd a nodweddion y dirwedd; a
- bodloni'r Gofynion Rheoli Statudol (SMR), sy'n ymwneud â'r amgylchedd, iechyd pobl a phlanhigion, iechyd a lles anifeiliaid a thagio ac olrhain da byw.

Cewch fanylion llawn y safonau Trawsgydymffurfio yn y '*Canllaw i Ffermwyr am Drawsgydymffurfio'* ac ar wefan Llywodraeth y Cynulliad ar www.cymru.gov.uk

## Cod y Fferm Gyfan

Set o ofynion gorfodol yw Cod y Fferm Gyfan y mae'n rhaid cadw atyn nhw am gyfnod llawn y contract ar yr holl dir sy'n dod o dan y contract.

Cewch ragor o fanylion yn Llyfryn Rheolau Glastir Uwch: Cod y Fferm Gyfan a'r Opsiynau Rheoli.

## Opsiynau Rheoli Glastir Uwch

Mae yna ryw 90 o Opsiynau Rheoli sy'n seiliedig ar arwynebedd i gyfrannu at wireddu amcanion penodol Glastir sy'n sail i nodau Glastir. Mae copi o'r rhestr i'w weld yn Atodiad 1. Bydd yr Opsiynau Rheoli sydd ar gael ichi yn dibynnu ar yr amcanion y gwelwn y bydd eich daliad yn gallu eu gwireddu ac ar natur y tir. Gallai'r mathau o opsiynau a allai fod ar gael ichi gynnwys:

- Opsiynau tir âr fel ydau gwanwyn heb eu chwistrellu neu gnydau gorchudd i fywyd gwyllt. Bwriad y cnydau hyn yw darparu bwyd a chysgod i rywogaethau fel y durtur a'r blodau prin sy'n tyfu ar dir âr.

- Opsiynau rheoli cynefinoedd ar weundir, tir pori a choetir ac ati. Er enghraifft, troi tir yn weirglodd er mwyn darparu bwyd i wenyn a rhwystro pridd a maethynnau rhag cael eu golchi i gyrsiau dŵr.

- Opsiynau rheoli maethynnau fel chwistrellu slyri i'r pridd a chynlluniau rheoli maethynnau rhag gwasgaru slyri a gwrtaith yn ddiangen fel bod llai o faethynnau'n treiddio trwy'r pridd i gyrsiau dŵr.

Dim ond yr Opsiynau Rheoli sy'n cyfrannu at wireddu'r amcanion y cafodd y fferm ei dewis o'u herwydd y gallwch eu cynnwys yn eich contract Glastir Uwch. Er enghraifft, os mai un o'r amcanion sydd wedi'u dewis ar gyfer eich fferm yw cornchwiglod, byddai Opsiynau Rheoli addas yn cynnwys rheoli tir pori gwlyb a thyfu ydau'r gwanwyn.

Os oes gennych goetir lled-naturiol hynafol, bydd gofyn ichi wahardd stoc ar o leiaf 80% ohono a chan ddibynnu ar faint o goetir sydd gennych ar eich fferm, mae'n bosib y bydd gofyn ichi baratoi Cynllun Rheoli Coedwig. Bydd gofyn i Gynlluniwr Rheoli baratoi'r Cynllun Rheoli. Bydd hwnnw neu honno wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru a bydd arian ar gyfer paratoi'r Cynllun Rheoli ar gael trwy Glastir. Dim ond gwaith fydd wedi'i nodi yn y Cynllun Rheoli gaiff fod yn rhan o gontract Glastir Uwch.

Os oes gennych dir mewn ardal Blaenoriaeth Ansawdd Dŵr a/neu ardal Misglen Berlog yr Afon, efallai y daw swyddog o Cyfoeth Naturiol Cymru i'ch gweld i nodi pa waith allai'ch helpu i reoli a defnyddio dŵr a maethynnau pridd yn well. Er mwyn gallu gwneud hynny, bydd angen i swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru godi samplau pridd ac asesu'r fferm. Efallai y bydd angen paratoi Cynllun Rheoli Tail a Chynllun Rheoli Maethynnau hefyd ar gyfer eich fferm. Bydd y pecyn hwn yn helpu Rheolwr y Contract i ddewis yr Opsiynau Rheoli mwyaf addas i sicrhau'r canlyniadau gorau wrth geisio gwireddu'r amcanion hyn.

Byddwch yn cael eich talu fesul hectar am gynnal Opsiynau Rheoli ac mae gan bob opsiwn ei gyfradd dalu ei hun. Cewch weld manylion yr Opsiynau Rheoli a'u cyfraddau talu yn Atodiad 2.

## Gwaith Cyfalaf Glastir Uwch

Mae tua 190 o opsiynau Gwaith Cyfalaf ar gael fel rhan o Glastir Uwch i gyflawni amcanion penodol. Dyma'r math o Waith Cyfalaf sydd ar gael:

- ffiniau fel ffensio neu adfer waliau cerrig – ar gyfer rheoli stoc at ddiben Opsiynau Rheoli penodol neu i wella nodweddion y dirwedd
- gosod cwlfertau ar gyfer lleihau erydiad pridd neu i reoli dŵr
- rheoli llystyfiant fel rhododendron neu rug – er mwyn cynyddu bioamrywiaeth
- gwella mynediad i'r cyhoedd e.e. gatiau a chamfeydd
- gwaith i wella nodweddion neu adeileddau hanesyddol

Dim ond Gwaith Cyfalaf sy'n gallu gwireddu'r amcanion ar gyfer eich fferm y gallwn ei gynnig ichi yn eich contract Glastir Uwch. Er enghraifft, mae adfer perthi (gwrychoedd) yn cyfrannu at amcanion ystlumod pedol a chardwenyn llwydfrown. Hefyd, gellir cyflawni amcanion y dirwedd a'r dirwedd hanesyddol trwy gynnal gwaith fel adfer waliau cerrig.

Mae gan bob Gwaith Cyfalaf ei gyfradd dalu ei hun a rhaid cwblhau'r gwaith yn y flwyddyn a nodir yn eich contract. Os na chaiff y Gwaith Cyfalaf ei gwblhau yn y flwyddyn a nodir, gallai hynny na chewch eich talu neu gael eich cosbi. Cewch ragor o fanylion am Waith Cyfalaf a'u cyfraddau talu yn Atodiad 3.



Nôl i'r cynnwys

## Adran C – Pwy sy'n Gymwys

Cynllun fferm gyfan yw Glastir Uwch. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid ichi gynnwys yr holl dir rydych yn berchen arno neu sydd o dan ein rheolaeth lwyr. Os ydych yn cael cynnig contract ac y gwelir wedi hynny na wnaethoch gynnwys eich holl dir cymwys, gallai'ch contract gael ei ddiddymu ac efallai bydd yn rhaid ichi dalu'r arian a'r llog yn ôl.

I fod yn gymwys am Glastir Uwch:

- byddwch yn gwsmer cofrestredig gyda Llywodraeth Cymru a byddwch wedi cael Cyfeirnod Cwsmer (CRN).
- byddwch wedi cofrestru'ch tir i gyd gyda System Adnabod Parseli Tir Llywodraeth Cymru
- bydd gennych o leiaf 3 hectar o dir cymwys
- dim ond chi fydd yn hawlio Cymorth Ewropeaidd (e.e. y Taliad Sylfaenol (BPS) a Glastir) ar y tir
- rhaid ichi gynnwys eich holl dir cymwys yn eich contract Glastir Uwch.

**Pa dir sy'n gymwys**

- Yr holl dir y bydd gennych reolaeth lwyr arno am oes y contract (pum mlynedd). Os ydych yn denant ac yn annhebygol o fod â rheolaeth lwyr am y cyfnod pum mlynedd lawn, gallwch ofyn am Warant Landlord a thrwy hynny, ei gynnwys. Cewch fwy o fanylion yn Atodiad 4.

- Dim ond caeau cyfain fydd yn gymwys.

- Dim ond parseli yng Nghymru fydd yn gymwys.

- Tir Comin sydd wedi'i gofrestru fel parsel ar LPIS Llywodraeth Cymru, ac mai dim ond chi sydd â hawliau cofrestredig i bori da byw arno neu chi yw'r unig hawlydd a phorwr actif (ar yr amod eich bod wedi cael cydsyniad ysgrifenedig pawb arall sydd â hawliau pori cofrestredig).

**Pa dir sydd ddim yn gymwys ar gyfer Glastir Uwch**

- Tir y tu allan i Gymru
- Tir Comin â mwy nag un porwr
- Caeau sy'n cael eu cyd-bori
- Rhannau o gaeau
- Caeau sy'n cael eu defnyddio gan ymgeisydd arall i hawlio taliadau eraill y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)
- Tir wedi'i ddatblygu e.e. safleoedd carafanau parhaol, cyrsiau golff
- Caeau llai na 0.1 hectar o faint.

## Tir mewn cynlluniau eraill

Mae manylion y berthynas rhwng Glastir Uwch a thir sydd o dan gynlluniau eraill wedi'u nodi isod.

**Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)**

Os oes gennych dir rydych yn hawlio BPS arno yn 2015, cewch hawlio Glastir Uwch ar y tir hwnnw. Gallai tir yr ydych yn cynnal Opsiynau Rheoli Glastir Uwch arno nad ydynt yn bodloni gofynion y BPS (e.e.coridorau glan nant) fod yn gymwys am daliadau BPS os defnyddioch chi'r tir i hawlio taliad SPS arno yn 2008. Fodd bynnag, os oes gennych barsel sy'n llai na'r darn lleiaf o dir y caniateir talu BPS arno a phyllau dŵr a grëwyd o dan Glastir, efallai na fyddant yn gymwys am BPS. Cewch fwy o fanylion yn y Llyfryn Rheolau BPS diweddaraf.

**Glastir Sylfaenol**

Os oes gennych gontract Glastir Sylfaenol eisoes, does dim i'ch rhwystro rhag cyflwyno ffurflen Mynegi Diddordeb Glastir Uwch, gyda'r contract i ddechrau ar 1 Ionawr 2016. Nid yw'n ofyn mwyach bod gennych gontract Glastir Sylfaenol er mwyn gallu cael contract Glastir Uwch, ac mae'r rheini sydd ar Lefel Mynediad Is Glastir Sylfaenol hefyd yn cael cyflwyno ffurflen Mynegi Diddordeb.

Unwaith y byddwch wedi'ch dewis ar gyfer Glastir Uwch, ni chewch wneud cais ar gyfer Glastir Sylfaenol heb dynnu'ch ffurflen Mynegi Diddordeb Glastir Uwch yn ôl. Ar ôl llofnodi

contract Glastir Uwch, ni fydd Llywodraeth Cymru'n derbyn rhagor o geisiadau i ymuno â Glastir Sylfaenol gennych.

Os oes gennych gontract Glastir Sylfaenol eisoes, efallai y bydd yn rhaid ichi newid eich Opsiynau Rheoli os oes gennych rai nad ydyn nhw'n gyson ag amcanion Glastir Uwch.

**Tir Comin Glastir**

Os ydych yn Gymdeithas Bori sydd â chontract Tir Comin Glastir ond ichi gael cynnig contract Glastir Uwch o'r blaen, ni fyddwch mwyach yn gymwys ar gyfer Glastir Uwch

**Glastir Organig**

Os oes gennych dir o dan gontract Glastir Organig, gallwch ei gynnwys yn eich contract Glastir Uwch. Ond efallai, o dan Glastir Uwch, y bydd gofyn ichi wahardd stoc o rai mannau. Bydd hynny'n eu gwneud yn anghymwys ar gyfer Glastir Organig. Nid yw opsiynau Glastir Uwch ar dir âr yn gymwys fel cnydau Cyfradd Dalu 1 o dan Glastir Organig.

Am ragor o wybodaeth am Glastir Organig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

**Cynlluniau Coetir**

Gallwch gynnwys coetir o dan y Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd, Cynllun Grantiau Coetir, Premiwm Tir wedi'i Wella, Coetiroedd Gwell i Gymru, Rheoli Coetir Glastir, Creu Coetir Glastir a Phremiwm Creu Coetir Glastir yn eich contract Glastir Uwch, ond chewch chi ddim cynnal Opsiynau Rheoli Glastir Uwch arno.

**Tir sy'n rhan o Gytundeb Rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru**

Gallwch gynnwys tir sy'n dod o dan Gytundeb Rheoli Adran 15 (A.15) neu Adran 16 (A.16) gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fel rhan o dir eich contract Glastir Uwch ond chewch chi ddim cynnal Opsiynau Rheoli Glastir Uwch arno oherwydd y perygl ichi gael eich talu ddwywaith am yr un peth.

**Cytundebau Rheoli Henebion Rhestredig**

Gallwch gynnwys Henebion Rhestredig a thir sy'n destun cytundeb rheoli CADW fel rhan o dir eich contract Glastir Uwch ond chewch ddim cynnal Opsiynau Rheoli Glastir Uwch arno.

**Y Gronfa Natur**

Os ydych yn cael eich talu gan y Gronfa Natur i gynnal gweithgareddau, efallai na fydd y tir y cynhelir y gweithgareddau hyn arno yn gymwys ar gyfer Glastir Uwch gan fod perygl ichi gael eich talu ddwywaith am yr un peth.

**Arian o Ffynonellau Eraill**

Os byddwch yn cael taliad o ffynhonnell arall ar gyfer rheoli gwaith sydd ei angen o dan Opsiwn Rheoli Glastir Uwch, bydd hynny'n cael ei ystyried fel enghraifft o gael eich talu ddwywaith.

Cofiwch mai'ch cyfrifoldeb chi yw peidio â dewis Opsiwn Rheoli neu Waith Cyfalaf o dan eich contract Glastir Uwch sy'n gorgyffwrdd â chytundeb arall a'ch cyfrifioldeb chi yw sicrhau hefyd nad yw gofynion rheoli'r cynlluniau'n gwrthdaro.

Os gwelir wedyn eich bod yn cael arian o ffynhonnell arall i gynnal Opsiwn Rheoli Glastir Uwch, gallai hynny arwain at gosb ariannol, gofyn ichi ad-dalu'r taliadau ac o bosibl, dod â'ch contract i ben.

## Tir Dynodedig

**Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA, Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG), Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)**

Os oes gennych dir sydd wedi'i ddynodi'n SoDdGA (gan gynnwys ACA ac AGA) neu GNG, gallwch ei gynnwys yn eich contract Glastir Uwch. Rhaid gofalu serch hynny nad yw gofynion eich Contract Glastir yn gwrthdaro â gofynion rheoli'r dynodiadau hyn.

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r awdurdod sy'n gyfrifol am reoli SoDdGAoedd a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol. Mae gofyn cyfreithiol i ofyn i CNC am ei ganiatâd ysgrifenedig cyn cynnal Opsiynau Rheoli ar y tir hwn.

**Parciau a Gerddi Cofrestredig, Henebion Rhestredig a Nodweddion eraill yr Amgylchedd Hanesyddol**

Rhaid i chi ofalu nad yw gofynion eich Contract Glastir Uwch yn gwrthdaro â gofynion rheoli tir sydd wedi'i ddynodi'n Heneb Restredig nac yn difrodi Parciau a Gerddi Cofrestredig, Heneb sydd wedi'i Rhestru a Nodweddion eraill yn yr Amgylchedd Hanesyddol. CADW yw'r corff sy'n gyfrifol am reoli Henebion Rhestredig a Pharciau a Gerddi Cofrestredig. Os ydych am gynnal Opsiwn Rheoli ar y tir hwn, efallai y bydd angen ei ganiatâd ysgrifenedig arnoch i gynnal yr Opsiwn Rheoli hwnnw.

Os ydych am gynnal Opsiwn Rheoli sy'n golygu tyrchu'r tir ar Nodwedd yn yr Amgylchedd

Hanesyddol, bydd angen caniatâd eich Ymddiriedolaeth Archeolegol Leol arnoch.

## Tir ar gyfer Chwaraeon

Os ydych am ddefnyddio'ch tir i gynnal chwaraeon arno, byddai hynny'n groes i'ch contract (e.e. difrod i dir cynefin) a rhaid i chi beidio â'i gynnwys yn eich Contract Glastir.

Nid yw tir sy'n cael ei ddefnyddio'n barhaol at bwrpas cynnal chwaraeon (e.e. cwrs golff) yn gymwys ar gyfer Glastir Uwch.

Mae'n dderbyniol cynnal gweithgareddau cefn gwlad isel eu heffaith fel saethu, pysgota, llwybrau moduro a marchogaeth cyn belled nad ydynt yn arwain at ddifrodi cynefinoedd. Wrth ystyried gweithgareddau o'r fath, byddai'n gyngor da dilyn y Cod Ymarfer Da perthnasol, fel Cod Ymarfer Trefnu a Rheoli Digwyddiadau Beiciau Modur Cystadleuol oddi ar y Ffordd (www.mscode.co.uk).

# Adran D – Ceisio am Glastir Uwch

Mae'r Adran hon yn esbonio sut mae Mynegi Diddordeb yn Glastir Uwch a beth yw trefn y broses ddewis.

**Cyflwyno ffurflen Mynegi Diddordeb**

Cewch Fynegi Diddordeb yn Glastir Uwch trwy fynd i Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein. Os oes gennych Gyfeirnod Cwsmer (CRN) eisoes, dylech fod wedi cael llythyr yn Chwefror 2014 gyda Chod Defnyddio ichi allu creu cyfrif. Os ydych wedi'i golli, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 (Llun – Iau 8:30 – 17:00, Gwener 8:30 – 16:30) a dweud wrth y cysylltydd beth yw'ch CRN. Caiff Cod Defnyddio ei anfon atoch.

Ar ôl ichi gofrestru, gallwch fynd yn syth i'ch cyfrif RPW Ar-lein o www.cymru.gov.uk/rpwarlein. Fe welwch ffurflen Mynegi Diddordeb Glastir Uwch yn yr adran Ceisiadau a Hawliadau ac mae cyfarwyddiadau manwl wedi'u paratoi ichi ar sut i'w llenwi ar www.cymru.gov.uk/rpwarlein.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch sut i gofrestru ar gyfer RPW ar-lein neu lenwi'ch ffurflen Mynegi Diddordeb, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i drafod yr help digidol sydd ar gael ichi.

Cewch fwy o fanylion am Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru (www.cymru.gov.uk/rpwarlein).

Er mwyn Mynegi Diddordeb mewn contract Glastir Uwch sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2016, rhaid cyflwyno'r ffurflen rhwng 9 Chwefror 2015 a chanol nos 6 Mawrth 2015. Gan ddibynnu ar faint o arian fydd ar gael, mae'n debyg y daw'r cyfle nesaf i gyflwyno ffurflen Mynegi Diddordeb yn ystod hydref 2015, hynny ar gyfer contractau Glastir Uwch sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2017.

**Pwysig**: Os cewch eich dewis ar gyfer Glastir Uwch a'ch bod wedyn yn tynnu'ch cais yn ôl ar ôl i Reolwr Contractau Glastir ymweld â chi, cewch eich gwahardd rhag ymgeisio am Glastir Uwch am ddwy flynedd. Mae'n bwysig felly'ch bod yn darllen ac yn deall yr holl wybodaeth am Glastir Uwch cyn Mynegi'ch Diddordeb.

## Y Broses Ddewis

Mae proses ddewis Glastir Uwch yn asesu gallu pob daliad i gyfrannu at amcanion a nodau Glastir. Mae nifer o fapiau wedi'u cynhyrchu sy'n dangos sut mae amcanion Glastir Uwch wedi'u rhannu trwy'r wlad. Byddwn yn asesu gallu'ch daliad chi i wireddu'r amcanion sydd wedi'u nodi ar y mapiau a byddwn yn rhoi sgôr iddi fydd yn adlewyrchu ei gallu i wireddu'r amcanion hynny. Bydd Rheolwr Contractau Glastir yn ymweld â'r ffermydd fydd wedi cael y sgoriau uchaf i drafod y cyfuniad mwyaf addas o Opsiynau Rheoli a Gwaith Cyfalaf i'w cynnal ar gyfer yr amcanion y cafodd y daliad ei ddewis i'w gwireddu. Gallai'r broses sgorio newid yn y dyfodol os bydd ein blaenoriaethau Glastir yn newid. Hynny yw, gallai cais sydd wedi cael sgôr isel eleni fod yn llwyddiannus yn y dyfodol pe bai'n blaenoriaethau'n newid. Byddwn yn rhoi gwybod ichi a fydd eich cais yn llwyddiannus gan restru'r amcanion a ddefnyddiwyd i gyfrif sgôr eich fferm.

## Ymweliad Rheolwr Contractau Glastir

Os cewch eich dewis ar gyfer Glastir Uwch, bydd Rheolwr Contractau Glastir yn trefnu i ymweld â'ch daliad. Bydd gan Reolwr y Contract wybodaeth arbenigol fydd yn ddefnyddiol i benderfynu pa Opsiynau Rheoli a Gwaith Cyfalaf fyddai fwyaf addas i wireddu'r amcanion ar eich daliad.

## Contractau Glastir Uwch

Ar ôl ymweld â'ch fferm a chael trafodaeth â chi, bydd Rheolwr eich Contract yn llunio contract Glastir Uwch ar gyfer eich daliad. Meddyliwch yn galed a yw'r contract hwn yn addas ichi a'ch busnes. Os ydych chi'n hapus â'r contract, llofnodwch ddau gopi o Adran 5 ac anfon un o'r copïau i Lywodraeth Cymru. Os ydych am ofyn am newidiadau, cysylltwch â Rheolwr eich Contract cyn gynted ag y medrwch er mwyn iddo allu eu hystyried. Ni fydd modd i Reolwr eich Contract wneud newidiadau mawr i'r contract gan mai'r Opsiynau Rheoli a'r Gwaith Cyfalaf sydd wedi'u dewis fydd y rhai gorau ar gyfer yr amcanion y cafodd eich daliad ei ddewis i'w gwireddu.

Os byddwch yn dewis peidio â llofnodi'r Contract, caiff y cynnig ei wrthod ac ni fyddwch yn cael Mynegi Diddordeb yn Glastir Uwch eto am ddwy flynedd.

## Adran E – Taliadau

Byddwch yn cael taliad rheoli bob blwyddyn ar gyfer Cod y Fferm Gyfan (WFC) a'r Opsiynau Rheoli fydd yn eich contract. Byddwch yn cael eich talu'n ôl-weithredol, hynny yw cewch eich talu am yr hyn gwnaethoch chi ym mlwyddyn y contract, o fis Chwefror yn y flwyddyn ganlynol ar ôl i'ch cais gael ei ddilysu'n llawn. Er enghraifft, ar gyfer opsiynau rheoli blynyddol 2016, byddwch yn cael eich talu o Chwefror 2017.

I gael eich taliadau rheoli blynyddol, rhaid dilysu'r canlynol yn llwyddiannus:

- Ffurflenni Cais Sengl;
- yr holl dir sydd wedi'i ddatgan o dan bob cynllun Datblygu Gwledig sy'n seiliedig ar arwynebedd a'ch
- bod wedi cydymffurfio â rheolau pob cynllun Datblygu Gwledig sy'n seiliedig ar arwynebedd.

Bydd Llywodraeth Cymru'n eich talu trwy BACS yn unig ac mewn punnoedd. Os ydych eisoes yn derbyn cymorth ariannol, trwy'r system BACS yr ydym yn eich talu, felly nid oes unrhyw beth arall ichi ei wneud. Os ydych yn gwsmer newydd i'r Adran, bydd gofyn ichi lenwi ffurflen BACS. Gofynnwch i'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid am gopi.

Bydd yn rhaid ichi hawlio Gwaith Cyfalaf Glastir Uwch ar wahân yn ystod y flwyddyn galendr a nodir yn eich contract. Byddwn yn eich talu am eich Gwaith Cyfalaf ar ôl inni gadarnhau bod eich ffurflenni hawlio Gwaith Cyfalaf yn gywir.

**Er mwyn ichi gael eich talu, rhaid ichi:**

- fod wedi cael Contract Glastir Uwch a byddwch wedi cadw at holl ofynion y contract, gan gynnwys Trawsgydymffurfio
- cyflwyno Ffurflen Gais Sengl bob blwyddyn i hawlio'ch Taliad Rheoli blynyddol. Rhaid ichi hawlio taliadau erbyn 15 Mai fan hwyraf bob blwyddyn rhag cael eich cosbi am hawlio'n hwyr.
- datgan yr holl dir amaethyddol ac anamaethyddol sydd ar eich daliad ar y Ffurflen Cais Sengl

- peidio â gwneud datganiad ffug neu gamarweiniol na rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol

- peidio â chreu amodau ffug i gael y taliadau (er enghraifft, rhannu caeau er mwyn cael y taliad uwch)

- caniatáu i'ch holl dir gael ei archwilio unrhyw bryd ar ôl cael rhybudd gan Lywodraeth Cymru neu berson awdurdodedig arall a byddwch yn rhoi i Lywodraeth Cymru neu'r person awdurdodedig unrhyw ddogfen neu gofnod y gallai ofyn amdani/amdano

- rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru o fewn 30 diwrnod ar ôl unrhyw newid sy'n effeithio ar eich contract neu dir sy'n rhan o'ch contract Glastir Uwch.

- cyflwyno ffurflen hawlio Gwaith Cyfalaf yn y flwyddyn a nodir yn eich contract gan ddefnyddio'r ffurflen a roddir ichi. Gofalwch eich bod hefyd yn darparu unrhyw ddogfennau ategol allai fod eu hangen ar gyfer eitemau o Waith Cyfalaf penodol, fel derbynebau neu anfonebau



Nôl i'r cynnwys

# Adran F – Newid y Contract

## Trosglwyddo neu Werthu Tir sydd o dan Gontract

Wrth arwyddo'ch contract Glastir Uwch, rydych yn gwneud ymrwymiad am bum mlynedd. Os byddwch yn penderfynu gwerthu neu drosglwyddo'ch tir neu ran ohono yn ystod pum mlynedd eich contract, efallai y bydd gofyn i chi ad-dalu'r arian rydych eisoes wedi'i gael neu gael eich cosbi'n ariannol.

Os ydych am drosglwyddo contract Glastir Uwch i feddiannydd newydd, rhaid cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Os ydy'r meddiannydd newydd yn dewis cymryd eich ymrwymiad chi oddi arnoch a bod y tir yn dal i fodloni'r amodau gofynnol ar gyfer ymuno â Glastir Uwch, rhaid i'r meddiannydd newydd barhau â'r ymrwymiad ar y tir hwnnw am weddill cyfnod y contract. Dylid gofalu fod y meddiannydd newydd yn gwybod am yr ymrwymiad Glastir Uwch cyn cytuno i drosglwyddo'r tir dan sylw.

Ar ôl trosglwyddo neu werthu rhan o'r tir, rhaid i unrhyw dir rydych wedi'i gadw ac sy'n dal yn rhan o'ch contract Glastir Uwch gwreiddiol barhau i fodloni amodau gofynnol Glastir. Os nad yw, bydd gofyn ichi ad-dalu pob taliad a wnaed ar y tir hwnnw, ynghyd â'r llog.

Os ydych yn trosglwyddo neu'n gwerthu unrhyw dir sy'n rhan o'ch contract Glastir Uwch, yna rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru trwy lythyr o fewn 30 diwrnod ar ôl i hynny ddigwydd. O beidio â rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru, byddwch yn debygol o gael eich cosbi.

Os byddwch yn trosglwyddo neu'n gwerthu tir sydd o dan gontract a bod Llywodraeth Cymru'n credu bod amcanion amgylcheddol Glastir Uwch wedi'u tanseilio o'r herwydd, gallai'r contract gael ei derfynu ac efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu pob taliad ynghyd â'r llog.

## Cael Rhagor o Dir yn ystod Cyfnod y Contract

Os ydych yn cael tir ar ôl dyddiad dechrau'ch contract nad oedd yn rhan o gontract Glastir Uwch, bydd gofyn ichi wneud cais i'r tir hwnnw gael bod yn rhan o'ch contract Glastir Uwch.

## Newid y Tir a’r Gofyn i’n Hysbysu am Newidiadau i’r Tir

Rhaid i chi roi gwybod i Lywodraeth Cymru am newidiadau i’ch caeau o fewn 30 diwrnod ar ôl i’r newid ddigwydd.

Gallai’r newidiadau hynny gynnwys:

- Cofrestru caeau nad ydynt wedi’u cofrestru gydag IACS o’r blaen (h.y. caeau heb eu cofnodi ar y Ffurflen Gais Sengl (SAF))
- Rhannu caeau yn barhaol
- Uno caeau yn barhaol
- Newid ffiniau caeau
- Newid nodweddion parhaol caeau.

Hefyd, rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru o fewn y terfyn o 30 diwrnod ar ôl iddo ddigwydd os ydy meddianwyr y tir gan gynnwys perchennog newydd neu denantiaeth newydd, yn newid.

Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am y newidiadau hyn ar y *Ffurflen Gais Cynnal Caeau (FM)* cyn pen 30 diwrnod ar ôl i’r newid ddigwydd.

## Newid i’r Ddeddfwriaeth (gan gynnwys Dehongliadau Newydd)

Mae Rheoliadau Ewrop yn cael eu newid o dro i dro. Bydd yn rhaid i chi gydymffurfio â’r newidiadau hynny ar ôl i Lywodraeth Cymru eich hysbysu amdanyn nhw.

## Newid Rheolau’r Cynllun

Efallai weithiau, bydd angen newid eich contract. Er enghraifft, efallai y bydd angen diweddaru’r amodau rheoli yn sgil ymchwil wyddonol newydd, newid rheolau’r cynllun yn sgil newidiadau i Gynllun Datblygu Gwledig Cymru neu bennu cyfraddau talu newydd. Byddwn yn cyhoeddi’r newidiadau yn Gwlad ar wefan Llywodraeth Cymru (www.cymru.gov.uk) a lle bo gofyn, yn ysgrifennu atoch chi.

## Adran G – Archwiliadau a Chofnodion

Mae Llywodraeth Cymru'n gorfod gwneud yn siŵr bod ffermwyr yn cadw at reolau Glastir Uwch. Bydd yn gwneud hynny trwy archwiliadau fferm a defnyddio'r Systemau Lleoli Global a lluniau o'r awyr a chan loeren.

### Archwiliadau Fferm

Efallai y bydd angen i swyddogion archwilio gyfrif a chadarnhau nifer yr anifeiliaid ar eich daliad a chadarnhau manylion y tir a chywirdeb dogfennau a chofnodion. Pan fydd angen archwilio anifeiliaid, efallai bydd yn rhaid archwilio'r fuches neu'r ddiadell gyfan. Bydd disgwyl i chi grynhoi'r anifeiliaid i le cyfleus a gwneud yn siŵr bod llafur a chyfleusterau digonol ar gael i'w trin.

Gellir cynnal archwiliadau unrhyw adeg o'r flwyddyn ac archwilir yr holl ymrwymiadau y bydd modd eu harchwilio adeg yr ymweliad. Bydd Llywodraeth Cymru a'r corff gorfodi'n gwneud eu gorau glas i aflonyddu cyn lleied â phosib arnoch ond mae rhai archwiliadau'n gorfod cael eu cynnal heb rybudd. Gall archwiliadau gael eu cynnal fwy nag unwaith mewn blwyddyn.

Os byddwch yn gwrthod caniatáu archwiliad neu'n rhwystro'r archwilydd neu'n peidio â rhoi cymorth rhesymol iddo, fe allech golli'ch taliad a chael eich erlyn.

### Cadw Cofnodion

Rhaid i chi gadw'r holl gofnodion a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch i gadarnhau eich bod wedi rhoi gwybodaeth gyflawn a chywir i ni a'ch bod wedi cadw at eich ymrwymiadau. Bydd gofyn ichi gadw cofnodion da byw a chofnodion gweithgareddau rheoli ar gyfer Cod y Fferm Gyfan a rhai Opsiynau Rheoli.  Cewch dempledi enghreifftiol ar gyfer dyddiadur stocio a dyddiadur gwaith yn Atodiad 6

Bydd gofyn ichi hefyd

- roi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am eich contract Glastir Uwch a hynny o fewn y cyfnod a bennir gan Lywodraeth Cymru

- darparu i Lywodraeth Cymru, ei phersonau â chaniatâd a'i hasiantwyr, gofnodion, cyfrifon, derbynebau a gwybodaeth arall gan gynnwys cyswllt â data cyfrifiadur sy'n

ymwneud â’ch contract Glastir Uwch, rhoi’r hawl i Lywodraeth Cymru gymryd dogfennau neu gofnodion neu i wneud copïau neu godi darnau ohonyn nhw.

Nôl i'r cynnwys

# Adran H – Cosbau

Bydd ffermwyr yn cael eu cosbi am orddatgan neu danddatgan tir, am dorri rheolau Glastir ac am beidio â bodloni'r safonau trawsgydymffurfio.

## Tanddatgan

Os na fyddwch yn datgan holl dir amaethyddol eich daliad ar y Ffurflen Cais Sengl (yr holl dir rydych yn berchen arno a'r tir sydd gennych ar rent ac nid dim ond y tir sy'n dod o dan Glastir e.e. coetir/coedwigaeth, traciau, buarthau, arwynebau caled ac ati), gallai'ch taliadau Cynllun Datblygu Gwledig a Chynllun Taliad Sengl gael eu lleihau.

## Gorddatgan

Os gwelir bod arwynebedd sydd wedi'i ddatgan ar gyfer Glastir ar eich Ffurflen Cais Sengl (SAF) yn fwy na'r hyn sydd wedi'i weld mewn archwiliad, cewch eich cosbi am orddatgan. Cyfrifir y gosb gan ddefnyddio'r arwynebedd a gafodd ei ddatgan ar y SAF sy'n derbyn yr un gyfradd dalu (y cyfeirir atynt fel grwpiau cnydau).

## Torri'r Contract

Cynhelir archwiliadau gweinyddol ac ar y fferm i weld a ydych yn torri contract Glastir ac os gwelir eich bod, cewch wybod trwy lythyr. Lle gwelir eich bod wedi torri'r contract, byddwn yn lleihau a/neu'n atal eich taliadau gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol, mawr, parhaol ac ailadroddus oedd y tramgwydd gan ei gymhwyso i daliadau'r blynyddoedd blaenorol.

Os bydd Llywodraeth Cymru'n credu bod y tramgwydd mor ddifrifol nad oes modd ei gywiro, gallai derfynu'ch Contract. Mewn sefyllfaoedd difrifol iawn, gallai olygu hefyd eich gwahardd rhag ymuno â chynllun Datblygu Gwledig arall am hyd at ddwy flynedd.

Mae Llywodraeth Cymru'n asesu tramgwyddau yn ôl safonau dilysadwy sy'n cyfateb i'r amodau ar gyfer ymuno â'r cynllun. Mae matrics wedi'i lunio i benderfynu ar lefel y gosb i'w rhoi. Mae'r matrics cosbi a'r safonau dilysadwy i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru (www.cymru.gov.uk) .

## Torri'r safonau Trawsgydymffurfio

Eich cyfrifoldeb chi yw bodloni'r holl safonau Trawsgydymffurfio am y flwyddyn galendr lawn ar hyd oes eich Contract. Os na fyddwch yn bodloni'r Gofynion Rheoli Statudol neu'r safonau Cadw Tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da, boed yn fwriadol neu

drwy esgeulustod, gallech golli'ch taliad Glastir am flwyddyn neu fwy. Wrth benderfynu o faint y caiff eich taliad ei leihau, byddwn yn ystyried pa mor fawr, difrifol, parhaol ac ailadroddus y bu'r achos o anghydymffurfio.

# Adran I - Y Drefn Apelio

Mae'r broses apelio yng Nghymru yn cynnig trefn apelio annibynnol i chi os ydych yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi dod i benderfyniad cywir yn ôl rheolau Glastir.

Mae dau gam i'r broses apelio ffurfiol:

- Cam 1: pennaeth y Swyddfa Ranbarthol leol i adolygu'r achos
- Cam 2: Panel Apelio Annibynnol i adolygu'r achos (os bydd y ffermwr yn anhapus â'r penderfyniad yng Ngham 1). Bydd y Panel Annibynnol yn gwneud argymhelliad i'r Dirprwy Weinidog dros Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd a fydd wedyn yn penderfynu'n derfynol ar y mater.

Daw'r broses apelio i ben pan gaiff penderfyniad y Gweinidog ei gyhoeddi. Nid oes tâl am gam cyntaf y broses ond codir tâl ar gyfer yr ail gam - £50 am wrandawiad ysgrifenedig a £100 am wrandawiad llafar. Bydd hwn yn cael ei dalu'n ôl i'r apeliwr os bydd ail gam y broses yn llwyddiannus neu'n rhannol lwyddiannus.
Rhaid i chi apelio i'ch Swyddfa Ranbarthol leol cyn pen 60 diwrnod ar ôl derbyn penderfyniad a allai effeithio ar eich taliad.

Cewch fwy o fanylion y broses apelio gan eich Swyddfa Ranbarthol.

## Y Drefn Gwyno

Byddwn yn delio â chwynion o dan God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gwynion. Cewch fwy o wybodaeth am sut i wneud cwyn gan eich Swyddfa Ranbarthol.

Mae croeso i chi ysgrifennu at unrhyw Aelod o'r Cynulliad am eich cwyn a hefyd at:
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru,
1 Ffordd yr Hen Gae,
Pen-coed
CF35 5LJ.

# Adran J – Deddf Diogelu Data 1998: Hysbysiad Prosesu Teg

Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru’n defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar ffurflen gais Glastir neu unrhyw ddogfen arall a ddefnyddir mewn cysylltiad â’ch cais i ymuno â chynlluniau Glastir, neu wybodaeth sy’n cael ei chreu neu ei chael o ganlyniad i geisiadau o’r fath. Bydd Llywodraeth Cymru ymhlith pethau eraill yn rhannu peth gwybodaeth ag asiantaethau a chyrff cyhoeddus eraill ac yn darparu peth i’r cyhoedd ei gweld.

Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio gan fwyaf i brosesu ac asesu’ch cais am Glastir Uwch. Fe gaiff Llywodraeth Cymru (neu ei hasiantwyr) ddefnyddio'r wybodaeth hefyd at bwrpasau eraill, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau a'i dyletswyddau o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd a'i hymrwymiadau amgylcheddol statudol.

## Rhesymau dros Rannu Data Personol

Defnyddir yr wybodaeth a geir gan ymgeiswyr at y dibenion canlynol:

- Bydd y partneriaid yn croeswirio gwybodaeth er mwyn sicrhau nad oes neb yn torri rheolau'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol y maent yn eu gweinyddu
- Gweinyddu ceisiadau
- Cynhyrchu mapiau sy'n dangos y tir sy'n dod o dan y cytundebau
- Llunio adroddiadau o ddata o wahanol ffynonellau, ar gyfer eu cyhoeddi ar dudalennau gwefan Llywodraeth Cymru
- Paratoi crynodebau ystadegol
- Rhoi gwybodaeth i weinidogion iddynt allu gwneud penderfyniadau ynghylch newid polisïau ac ariannu
- Cysylltu â pherchnogion / defnyddwyr tir mewn argyfwng e.e. rheoli clefydau a rheoli tramgwyddau
- Diogelu hawliau ffermwyr mewn cadwraeth tir ac i ateb ymholiadau ynghylch ariannu
- I bartneriaid allu gwneud eu dyletswyddau cyfreithiol
- Datgelu gwybodaeth i awdurdodau rheoleiddio, fel Tollau ei Mawrhydi, Cyllid y Wlad a'r heddlu, lle bo lles y cyhoedd yn gofyn am hynny
- Cyhoeddi gwybodaeth ac ymateb i geisiadau am wybodaeth.

**Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth**

Bydd yr wybodaeth yn cael ei rheoli a'i defnyddio gan Lywodraeth Cymru yn unol â'i hymrwymiadau a'i dyletswyddau o dan:

- Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Diogelu Data 1998
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- Rheoliad (EC) rhif 908/2014 y Comisiwn.

Gall aelod o'r cyhoedd felly ofyn am gael gweld eich gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ryddhau'r wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch, wrth ymateb i gais o'r fath. Bob tro, wrth wneud, bydd yn cadw at y canllawiau yng Nghod Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

Mae copi o'r Cod i'w weld ar y rhyngrwyd yn:
www.cymru.gov.uk/cyhoeddiadau
www.wales.gov.uk/publications

Yn ôl Rheoliad (EC) rhif 908/2014 y Comisiwn, rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth bob blwyddyn am y personau cyfreithiol sy'n derbyn taliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Cyhoeddir taliadau pawb fydd wedi cael mwy na €1,250 mewn unrhyw flwyddyn. Cyhoeddir yr wybodaeth ar 30 Ebrill bob blwyddyn ar wefan chwiladwy a bydd yn cynnwys enw'r busnes a thref agosaf y sawl fydd wedi cael grant gyda manylion y symiau a'r cynlluniau y talwyd y grantiau trwyddynt. Ni chyhoeddir manylion y rheini fydd wedi cael llai na €1,250 mewn blwyddyn. Bydd yr wybodaeth ar gael ar wefan DEFRA: http://cap-payments.defra.gov.uk/

**Hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998**

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn rhoi hawliau penodol i unigolion mewn perthynas â'r data personol a gedwir amdanynt. Dyma rai enghreifftiau o'r hawliau hyn, er nad yw hon yn rhestr gyflawn:

- Bod yr wybodaeth bersonol sydd gennym amdanynt yn cael ei phrosesu'n deg a chyfreithlon;

- Yr hawl i gael copïau o'r wybodaeth bersonol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanynt, er y gall Llywodraeth Cymru wrthod gwneud hynny weithiau;
- Yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i rwystro Llywodraeth Cymru rhag prosesu gwybodaeth bersonol os byddai gwneud hynny'n gwneud niwed neu'n achosi gofid;
- Yr hawl o dan rai amgylchiadau i ofyn am gywiro gwybodaeth anghywir.

Bydd hawl gan unigolion hefyd i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn cadw golwg ar Ddeddf Diogelu Data 1998, farnu a fyddwn, wrth brosesu'ch gwybodaeth bersonol, yn debygol o gadw at amodau'r Ddeddf.

Nid aiff yr wybodaeth y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd oni bai bod rheswm da dros wneud hynny (e.e. pe bai clefyd yn mynd ar led). Os bydd rheswm da, bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud yn siwr bod yr wybodaeth yn dal i gael ei phrosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

## Gofyn am fwy o Wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ynghylch yr wybodaeth fydd yn cael ei chasglu a sut y bydd yn cael ei defnyddio, os oes gennych bryderon ynghylch cywirdeb eich data personol neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru.

# Adran K – Manylion Cysylltu

Mae yna wybodaeth bwysig ar wefan Llywodraeth Cymru www.cymru.gov.uk/amgylcheddachefngwlad ac yn Gwlad, y cylchgrawn deufisol www.gwladarlein.org.

Dyma fanylion cysylltu:

**Y GANOLFAN GYSWLLT I GWSMERIAID**

**Taliadau Gwledig Cymru**

PO Box 1081

Caerdydd

CF11 1SU

Ffôn: 0300 062 5004

Ffacs: 01286 662193

E-bost: rpwonline@wales.gsi.gov.uk

**Cysylltiadau defnyddiol eraill**

Ar gyfer tir sy'n SoDdGA, GNG, ACA neu AGA:

**CYFOETH NATURIOL CYMRU**

D/o Canolfan Gofal Cwsmeriaid

Tŷ Cambria

29 Heol Casnewydd

Caerdydd

CF24 0TP

Ffôn: 0300 065 3000

Ymholiadau cyffredinol: 0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am - 6pm)

Ymholiadau cyffredinol: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Ar gyfer Henebion Rhestredig / parciau a gerddi cofrestredig:

**CADW**
Llywodraeth Cymru
Plas Caeriw
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ
Ffôn: 01443 33 6000
Ffacs: 01443 33 6001
E-bost: Cadw@Wales.gsi.gov.uk

Ar gyfer henebion heb eu rhestru a nodweddion hanesyddol:

**Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed**
Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo,
Sir Gaerfyrddin, SA19 6AF
Ffôn: 01558 823121
Ffacs: 01558 823133
E-bost: info@dyfedarchaeology.org.uk
www.dyfedarchaeology.org.uk

**Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent**
Heathfield House
Heathfield
Abertawe
SA1 6EL
Ffôn: 01792 655208
Ffacs: 01792 474469
E-bost: enquiries@ggat.org.uk
www.ggat.org.uk

**Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd**
Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor,
Gwynedd, LL57 2RT
Ffôn: 01248 352535
Ffacs: 01248 370925
E-bost: gat@heneb.co.uk
www.heneb.co.uk

**Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys**
41 Broad Street
Y Trallwng
Powys
SY21 7RR
Ffôn: 01938 553670
Ffacs: 01938 552179
E-bost: trust@cpat.org.uk
www.cpat.org.uk

# Atodiad 1 – Amcanion Glastir Uwch

Enghreifftiau yw'r amcanion a restrir isod a gallent newid yn y dyfodol i adlewyrchu blaenoriaethau newydd.

| | |
|---|---|
| Llwybrau Cyhoeddus Caniataol | Ffwng Tir Pori |
| Perllan | Cen ar Hen Goed wrth ymylon Ffyrdd ac Dir Parc |
| Tir Parc a Choetir Pori | Cardwenynen lwydfrown |
| Tir Pori ar Lawr Gwlad | Cardwenynen Feinlais |
| Gweundir ar Lawr Gwlad | Planhigion Tir Âr |
| Gweundir yr Ucheldir | Planhigion Arctig-Alpaidd |
| Tir Pori ar Galchfaen yr Ucheldir | Planhigion Prin |
| Gweundir Mynydd | Planhigion Gweundir |
| Silff Craig a Sgri | Iechyd Gwenyn Mêl |
| Cynefinoedd Arfordirol | Priddoedd Carbon |
| Llynnoedd Sensitif | Parciau a Gerddi |
| Afonydd Sensitif | Henebion Rhestredig |
| Tirwedd Pwll | Nodweddion a Thirwedd Hanesyddol |
| Tirwedd Ffos | Adeiladau Traddodiadol |
| Gwlyptir (cors a ffen yr Ucheldir/Llawr Gwlad) | Tirweddau Gwarchodedig |
| Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a'r Cyffiniau | Blaenoriaeth Ansawdd Dŵr |
| Coetir | Ailstocio Phytophtera |
| Grugiar Ddu | Llygoden y Dŵr |
| Brân Goesgoch | Ystlum Pedol Mwyaf |
| Bras yr ŷd | Ystlum Pedol Lleiaf |
| Gylfinir | Gwiwer Goch |
| Cwtiad Aur | Ystlum Bechstein |
| Gŵydd Dalcen-wen yr Ynys Werdd | Pathew |
| Cornchwiglen | Ystlum Du |
| Grugiar Goch | Britheg Frown |

| | |
|---|---|
| Mwyalchen y Mynydd | Britheg y Gors |
| Turtur | Britheg Berlog |
| Llinos y Mynydd | Cliradain Cymreig |
| Gylfinbraff | Gwyniad |
| Cnocell Fraith Leiaf | Madfall Fawr Gribog |
| Titw'r Wern | |
| Troellwr | |
| Titw'r Helyg | |
| Misglen Berlog yr Afon | |

# Atodiad 2 – Opsiynau Rheoli

Mae'r tabl isod yn rhestru Opsiynau Rheoli Glastir Uwch a'u cyfraddau talu. Nid yw'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cymeradwyo'r Opsiynau Rheoli na'r cyfraddau talu eto a gallai'r gymeradwyaeth pan ddaw olygu eu newid.

Cewch ragor o fanylion Opsiynau Rheoli Glastir Uwch yn Llyfryn Rheolau Glastir Uwch: Cod y Fferm Gyfan a'r Opsiynau Rheoli.

| Rhif yr Opsiwn | Opsiwn Rheoli | Cyfradd Dalu (£) | Uned |
|---|---|---|---|
| 5 | Amodau rheoli manylach ar gyfer rheoli perthi (gwrychoedd) | 0.272 | m |
| 14 | Chwistrellu 100% o'r slyri | 17.00 | ha |
| 14b | Chwistrellu 75% o'r slyri | 12.50 | ha |
| 15 | Tir pori parhaol heb fewnbynnau | 94.00 | ha |
| 15c | Tir pori parhaol heb fewnbynnau ac â phori cymysg | 106.00 | ha |
| 19 | Glaswelltir gwlyb | 107.00 | ha |
| 19b | Glaswelltir gwlyb – pori cymysg | 119.00 | ha |
| 20 | Gweundir | 77.00 | ha |
| 20b | Gweundir – pori cymysg | 89.00 | ha |
| 21 | Morfa heli | 135.00 | ha |
| 21b | Morfa heli – pori cymysg | 147.00 | ha |
| 22 | Gweirglodd | 154.00 | ha |
| 25 | Twyni tywod | 112.00 | Ha |
| 25b | Twyni tywod – pori cymysg | 124.00 | Ha |
| 26 | Creu ymyl sefydlog o borfa ar dir âr | 0.057 | $m^2$ |
| 26b | Ymyl o borfa arw mewn cylchdro ar dir âr | 0.038 | $m^2$ |
| 27 | Ymylon o wyndwn | 0.0500 | $m^2$ |
| 28 | Cadw sofl dros y gaeaf | 122.00 | ha |
| 30 | Ydau neu godlysiau heb eu chwistrellu | 284.00 | ha |
| 31 | Ydau heb eu chwistrellu, gyda sofl dros y gaeaf | 440.00 | ha |
| 32b | Gwreiddgnydau heb eu chwistrellu | 497.00 | ha |

| Rhif yr Opsiwn | Opsiwn Rheoli | Cyfradd Dalu (£) | Uned |
|---|---|---|---|
| 33 | Cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt | 604.00 | ha |
| 34 | Talar o ŷd heb ei gynaeafu | 0.0525 | $m^2$ |
